CYPE(5)-20-20 - Papur i'w nodi 9

**Kirsty Williams AS/MS**
**Y Gweinidog Addysg**
**Minister for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lynne Neagle AS
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

5 Awst 2020

Annwyl Lynne,


Diolch am eich llythyr dyddiedig 22 Gorffennaf 2020 yn gofyn am ragor o wybodaeth ariannol yn dilyn fy ymddangosiad diweddar gerbron y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg mewn perthynas â Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru).

I gadarnhau, mae CLlLC, CCAC a'r Consortia Rhanbarthol wedi cael gwahoddiad i ddarparu rhagor o wybodaeth ariannol ar effaith y Bil Cwricwlwm ac Asesu i ddiweddaru'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA). Dyma ailgychwyn y gwaith a ddechreuodd yn gynharach eleni, ac a ohiriwyd mewn rhai achosion wrth i randdeiliaid ymateb ar frys i effaith Covid-19. Fodd bynnag, mae'n werth nodi i Uwch Swyddog Cyfrifol y Bil a Rheolwr y Bil gyfarfod â'r Consortia Rhanbarthol a bod yr RIA yn adlewyrchu eu barn ar y pryd. Bydd y gwahoddiad pellach hwn i gyfrannu at yr RIA yn darparu cyfle i'r Consortia Rhanbarthol ystyried yr wybodaeth honno yng ngoleuni effaith barhaus Covid-19 a'r canllawiau pellach a gyhoeddwyd i ategu'r gwaith o ddiwygio'r cwricwlwm.

Bydd yr RIA yn cael ei ddiweddaru ar ddiwedd Cyfnod 2 er mwyn adlewyrchu'r wybodaeth ychwanegol sy'n dod i law. Cyn hyn, byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'r Pwyllgor Cyllid wrth i ni gyfarfod yn yr hydref.

Yn y cyfamser, os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach, cysylltwch â mi.

Yn gywir,



**Kirsty Williams AS/MS**
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.